# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*


Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Donna Watts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd dros Zoom
**Nos Iau 29 Ebrill 2021**

**PRESENNOL:**
**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Gwilym Owen
Y Cynghorydd Griff Morris
Y Cynghorydd Walter Williams
Y Cynghorydd Bleddyn Williams
Y Cynghorydd Mary Jones

**Cyngor Sir**
Y Cynghorydd Paul Rowlinson

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Ann Williams
Y Cynghorydd Linda Brown

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Godfrey Northam
Y Cynghorydd Michael Williams
Y Cynghorydd Pearl Evans

1. **Croesawyd** pawb i'r Cyfarfod gan yr Is-gadeirydd y Cyng. Bleddyn Williams.
   **Ymddiheuriadau** –gan y Cyngr. Dyfrig Jones, Einir Williams a Rheinallt Puw.

**2. Datgan Diddordeb**
Eitem 6-Partneriaeth Ogwen: Y Cyng. Neville Hughes.

**3. Materion Brys**
**3.1** Adeiladu tai – y Cyng. Godfrey Northam wedi codi'r mater am cais cynllunio Cae Rhosydd, Llwyn Bleddyn. Y cais wedi ei dderbyn ar sail 30 o dai – 15 ar rhent ac 15 o dai fforddiadwy. Nawr wedi newid i 30 o dai ar rhent. Angen holi Cyngor Gwynedd os oes posib i'r tenantiaid brynu'r eiddo yn y dyfodol. Gormod o ddatblygiadau tai cymdeithasol yn unig yn yr ardal – Lôn Bach Odro, safle yr Hen Orsaf ac rwan Cae Rhosydd. Mae'n amlwg bod y cais wedi ei newid heb yngynghori gyda'r gymuned leol, nac y Cyngor Cymuned.

**4. Cofnodion**
Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mawrth 2021, yn ddarostyngedig i ychwanegu eitem 5.13 – Cae chwarae Rachub – angen holi Cyngor Gwynedd unwaith eto am yr arian a roddwyd gan y datblygwr ar gyfer caniatad cynllunio Llwyn Bedw.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion**
**5.1** Arwyddion newydd Ogwen Bank – Mae'r arwyddion wedi cael eu tynnu lawr, ond angen i'r polion ddod lawr hefyd. Y Clerc wedi siarad gyda'r Adran Cynllunio, sydd am gysylltu gyda'r perchennog unwaith eto.
**5.2** Lloches bws Sgwar Rachub a Braichmelyn –y llochesi wedi eu harchebu ac rydym yn disgwyl pris gan gontractwr lleol i'w gosod.

**5.3** Ffordd Coetmor, cyflwr y lôn yn ofnadwy, yn enwedig wrth y llyfrgell. Llawer o dyllau angen eu llenwi.  Gwaith 'patcho' wedi ei wneud, ond ddim digon da.
**5.4** Stryd Fawr, Rachub – o Capel Carmel at y Sgwâr.  Y ffordd angen sylw.  Cyngor Gwynedd wedi llenwi'r twll mwyaf, ac mwy na thebyg na gwaith 'patcho' fydd yn cael ei wneud ar y gweddill hefyd, yn hytrach na ail-arwynebu'r ffordd.  Y Cyng. Paul Rowlinson i erfyn ar Cyngor Gwynedd i wneud y ffordd yn iawn.
**5.5** Rhos y Nant – dŵr yn sefyll, angen sylw i'r draeni.  Cyngor Gwynedd am edrych ar wyneb y ffordd pan yn gwneud gwaith ail-wynebu ar y palmentydd.
**5.6** CCTV Stryd Fawr – y Clerc i holi Cyngor Gwynedd am ddiweddariad.
**5.7** Parc Meurig – llechi gyda cerfluniau cymeriadau Llyfr Mawr y Plant.  Angen eu paentio/adnewyddu.  Gohebiaeth i'w ystyried hwyrach yn y cyfarfod.
**5.8** Arwyddion stryd – arwydd ar gyfer Sgwar Buddug wedi ei gam-sillafu ac y Cyngor yn awyddus i gael arwydd ar gyfer Lôn Pâb ac Allt Caffi hefyd.  Arwydd Sgwar Buddug am gael ei newid cyn gynted a bo modd.  Angen trafod y ddau arall ymhellach gyda swyddog Cyngor Gwynedd.
**5.9** Llinellau melyn ym Mhant Dreiniog – llinellau wedi eu gosod oherwydd y loriau oedd yn arfer ymweld a C L Jones.  Y Cyng. Rheinallt Puw wedi holi CL Jones ac am ddisgwyl i weld pwy fydd perchennog newydd y safle a'i drafod gyda nhw.
**5.10** Diffibriliwr ar gyfer Rachub a Gerlan – penderfynwyd bod y Cyngor yn awyddus i osod un wrth Siop Rachub, ac un arall wrth y Caban yn Gerlan.  Perchnogion yr adeiladu yn fodlon, felly diffibrilwyr wedi eu harchebu.  Gobeithio cael eu gosod yn yr wythnosau nesaf.
**5.11** Twmpathau ger Llwyn Bedw – wedi cael eu ail-gwneud, ond dal llawer o gwynion eu bod yn rhy uchel.  Y Cyng. Paul Rowlinson wedi cael ymateb gan Cyngor Gwynedd sydd yn fodlon bod y twmpathau yn gywir.  Penderfynwyd gael lluniau o'r twmpathau a chysylltu gyda Cyngor Gwynedd unwaith eto.
**5.12** Cae chwarae Rachub - angen holi Cyngor Gwynedd unwaith eto am yr arian a roddwyd gan y datblygwr ar gyfer caniatad cynllunio Llwyn Bedw.
**5.13** Llwybr o Gwernydd i Abercaseg – ffens/rhwystrau wedi eu gosod ar waelod y llwybr, ond yr aelodau yn meddwl bod angen un neu ddau ychwanegol, er mwyn rhwystro'r ochr gyda gollwng serth.  Y Clerc a'r Cyng. Paul Rowlinson i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd.

**6. Adroddiad Partneriaeth Ogwen**
Dim cyfarfod wedi bod.

**7. Adroddiad Pwyllgor Cyllid**
Cafwyd crynodeb o'r cyfarfod diweddar gan y Cyng. Neville Hughes.

- Cais am rodd gan Cylch Meithrin Cefnfaes – argymell i'r Cyngor eu bod yn derbyn yr un swm a llynedd sef £250 – Cytunodd y Cyngor.
- Pileri Llyfr Mawr y Plant – wedi derbyn dau bris am wneud y gwaith adnewyddu – argymell i'r Cyngor i dalu'r gwahaniaeth rhwng y swm fydd yn cael ei dderbyn gan y grant LleCHI.  Penderfynodd y Cyngor fynd am opsiwn 2 sef mewn lliw.  Y Clerc i holi Cyngor Cymuned Llandygai am gyfraniad hefyd.
- Cynigwyd ac eilwyd, a pleidleiswyd yn unfrydol ein bod yn trosglwyddo £10,000 o'r penawd Grant Trethi Busnes at gronfa Cae Chwarae Pantdreinog.
- Y Cyng. Neville Hughes a'r Clerc i drafod sut i gofnodi'r tan-wariant ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol.
- Penderfynwyd derbyn yr adroddiad ariannol blynyddol.

**8. Crawia/pileri llechi**

Pawb i wneud rhestr o'r pileri sydd yn ein ardal ac anfon at y Clerc i'w cofnodi. Mae angen gwneud yn siwr bod rhain, sy'n gofnod pwysig yn ein hanes, yn cael eu gwarchod.

**9. Diffibrilwyr ychwanegol**

Penderfynwyd bod y Cyngor yn awyddus i osod 2 diffibriliwr arall yn y gymuned – 1 wrth Y Sior, ac un arall wrth lloches bws Braichmelyn. Y Clerc i wneud ymholiadau.

**10. Maes parcio Gerlan**

Dim diweddariad wedi ei dderbyn ynglŷn a'r cais am fenthyciad i'r Llywodraeth, nac y cais cynllunio. Dim cysylltiad o gwbl gyda'r Llywodraeth drwy ebost neu ffôn. Awgrymodd y Cyng. Godfrey Northam ein bod yn edrych am ffynhonellau eraill o gyllid sydd ar gael, wrth wneud ymholiadau gyda Un Llais Cymru.

**11. Gohebiaeth**

Roedd pawb wedi cael copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Ebrill 2021'

**11.1** Ebost gan Judith a Tom-Gweithwyr Llesiant ac Amgylchedd Dyffryn Gwyrdd – yn gobeithio dechrau ymgyrch 'Cymunedau di-blastig' ac yn chwilio am gynrychiolydd o'r Cyngor Cymuned i fod ar y grŵp llywio. Y Cyngor yn gefnogol iawn o'r ymgyrch ac etholwyd y Cyng. Walter Williams fel cynrychiolydd.

**11.2** Ebost gan Parc Cenedlaethol Eryri – Ymgynghoriad cyhoeddus:Canllaw Cynllunio Atodol Drafft. Nodwyd yr ohebiaeth.

**11.3** E-bost gan Archwilio Cymru – digwyddiad 20 Mai 2021 – Gweminar fyw: Eich tref, eich dyfodol. Y Cyngr. Godfrey Northam a Walter Williams wedi mynegi eu ddiddordeb.

**11.4** E-bost gan Llywodraeth Cymru – Rhoi Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) ar waith. Digwyddiad 13 Mai 2021. Y Clerc a'r Cyng. Godfrey Northam wedi mynegi diddordeb mynychu'r digwyddiad.

**11.5** Ebost gan Cyfoeth Naturiol Cymru – ymgysylltu â rhanddeiliaid ynglŷn a chynllun adnoddau Coedwig Abergwyngregyn, Braichmelyn a Parc y Bwlch. Yr aelodau i ymateb fel unigolion ac annog y gymuned i roi sylwadau.

**11.6** Ebost gan Cyngor Cymuned Llanllechid – yn anfodlon gyda'r drefn sydd wedi ei ddefnyddio ar gyfer y cais cynllunio ar gyfer Cae Rhosydd. Penderfynwyd bod y Cyngor yn ysgrifennu llythyr i gefnogi'r llythyr hwn oherwydd ein bod o'r un farn.

**11.7** Ebost gan Carter Vincent – llythyr cyfrinachol – Y Clerc i ymateb ein bod wedi derbyn y llythyr.

**12. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio**

**<u>Penderfyniadau</u>**

**C20/0716/13/LL**

| | |
|---|---|
| 1 Lon Sarnau, Bethesda | Cais ar gyfer trosi modurdy i anecs is-raddol i'r eiddo adnabyddir fel '1 Lon Sarnau, Ffordd y Stesion, Bethesda'<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |

**C20/0152/13/LL**

| | |
|---|---|
| 4 Rhes Ogwen | Cais ar gyfer trosi is-lawr eiddo i uned breswyl hunan gynhaliol |

ynghŷd a rhannu modurdy cefn i fodurdy a phorth car
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C20/0805/13/LL**
Tir ger Gwernydd, Gerlan

Cais ar gyfer adeiladu maes parcio
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C21/0087/13/DT**
Ty'n Llan, 17a Pant Glas, Bethesda

Cais i godi estyniad deulawr i ochr yr eiddo.
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C21/0083/13/DT**
Craig Ogwen, Rhes Ogwen, Stryd Fawr, Bethesda

Cais ar gyfer codi tŷ gwydr i gefn yr eiddo.
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**<u>Ceisiadau</u>**
**Y21/0325**
Brig y Nant, Lon Newydd Coetmor, Bethesda

Cyngor cyn cyflwyno cais – datblygiad i adeiladu 18 o dai
**Penderfyniad:** Sylwadau gan aelodau Ward Ogwen: 1. Pam mae'r llythyr wedi ei gyfeirio at Planning, West Lancashire Borough Council?
2. Yn falch o weld symudiad i ddefnyddio'r safle sydd wedi bod yn wag ers blynyddoedd, Byddai'n dda gweld y safle'n cael ei chwblhau yn chwaethus.
3. Pryder am 18 uned ar y safle! 6 neu 12 oedd yn y cynlluniau a ganiatawyd o'r blaen. 18 uned yn edrych yn ormod i'r safle yma
4. Ydi'n bosib cael copiau o'r ceisiadau a ganiatawyd yn y gorffennol? Methu eu canfod ar y system newydd
5. Faint o'r tai fydd yn rhai fforddiadwy?
6. 12 o dai dwy ystafell wely, 4 gyda 3 a dau gyda 4. Ydy'r 12 tŷ dwy stafell wely i gyd yn dai fforddiadwy?

7. 8 o’r safleoedd parcio yn rhai ‘tandem’, sydd yn siwr o fod yn anhwylus iawn.
8. Nodir yn y darluniau fod y ffordd fynedfa’n gul ond nid yw’n eglur os oes bwriad i’w lledu.
9. Os caniateir y datblygiad yn ôl y cais mae’r traffig ychwanegol yn cyrraedd y groesffordd rhwng Ffordd Newydd Coetmmor a’r A5 yn mynd i fod yn hunllef; ac rydym wedi bod yn y fan hyn o’r blaen.
10. Pwy sy'n adeiladu ac a fyddant yn dai preifat i'w gwerthu yn hytrach nag i'w rhentu?
11. Pryder am y cynnydd yn y traffig fydd yn ymuno â'r lôn i lawr at gapel Bethania
12. Pryder am y dreiniau -trigolion Rhos y Coed wedi cael trafferth yn y gorffennol
13. Pryder am y nifer ac ansawdd y tai.

| | |
|---|---|
| **C21/0338/13/LL**<br>100 Ffordd Carneddi, Carneddi, Bethesda | Estyniad deulawr yn y cefn<br>**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad. |

**13. Taliadau**

Awdurdodwyd y canlynol

| | |
|---|---|
| Cyflogau (Ebrill) | £302.47 |
| CThEM (Ebrill) | £75.40 |
| Opus Energy – trydan Llys Dafydd | £28.91 |
| IGR Electrical – Llys Dafydd | £252.00 |
| IGR Electrical – Llys Dafydd | £360.54 |
| Un Llais Cymru – aelodaeth | £760.00 |
| Scottish Power – golau Nadolig | £32.28 |
| Scottish Power – trydan Gorffwysfan | £59.22 |
| Scottish Power – golau Nadolig | £26.96 |

**14. Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Y Clerc yn gwirio dyddiad y cyfarfod nesaf oerwydd yr etholiad ar ddechrau’r mis. Cyfarfod i aros fel a drefnwyd – 27 Mai 2021.